# Ysgol y Bannau


gan Marion Evans, Pennaeth


Trochi Afon yr Wysg
Cafodd Blwyddyn 6 hwyl wrth weithio gyda Anna ac Eleri o Gyfoeth Naturiol Cymru ar brosiect Afonydd am Byth! Roeddent yn mesur tymheredd y dŵr, dyfnder yr afon, cyflymder yr afon, pH y dŵr gyda phapur litmws, ac yn trochi i weld pa greaduriaid oedd yn byw yno. Daethont o hyd i sawl creadur bach – calonogol iawn! Roedd pawb wedi mwynhau er bod sawl pâr o sanau a welis gwlyb erbyn y diwedd!






Dyma rai lluniau o'n taith gerdded noddedig. Braf oedd gallu dysgu am ein hardal leol a chodi arian ar gyfer ein hysgol. Diddorol oedd dysgu am y yr holl adeiladau crefyddol sydd gennym ni yma yn Aberhonddu. Diolch i bawb a oedd wedi ymuno gyda ni ar ein taith.



Cafodd blant Blwyddyn 4,5 a 6 gyfle arbennig i ddysgu am y galon gyda Gweithwyr Iechyd lleol. Dysgon nhw sut mae'r galon yn gweithio, a beth sydd ei angen ar gyfer calon iach. Roedd yn anhygoel defnyddio monitor calon yr Ysbyty i weld sut mae technoleg yn helpu gyda gofal y galon. Diolch yn fawr iawn i mam Cosima am drefnu'r gweithgareddau.





Aeth Blwyddyn 6 i'r dref i gynrychioli'n hysgol wrth gofio am y rhyfeloedd. Darllenon nhw eu cerddi gwreiddiol yno. Rydym yn falch iawn ohonyn nhw.




Rydym yn falch iawn o'n tîm Pêl Rwyd. Daethon nhw yn ail yn nhwrnament Pêl Rwyd yr Urdd – un marc i ffwrdd o'r Aur! Bendigedig Blant!




Aeth Blwyddyn 6 ar ddiwrnod pontio i Ysgol Uwchradd Aberhonddu. Am ddiwrnod llawn profiadau bendigedig! Cawson nhw'r cyfle i wylio rhan o'r sioe "Oliver!", cyfansoddi cerddoriaeth digidol a chyfarfod anifeiliaid o wledydd eraill. Am hwyl! Diolch yn fawr.





Cafodd Blwyddyn 2 a 3 ddiwrnod braf i fynd am dro ar hyd y gamlas a galw i fewn i'r Gaer i fenthyg llyfrau.





*Diolch yn fawr iawn i'n cymuned ysgol am godi £150.00 ar gyfer Diwrnod Plant mewn Angen. Cafwyd llawer o hwyl yn gwisgo i fyny, dawnsio a gwneud gweithgareddau celf. Diolch i'n Cyngor Ysgol am drefnu'r dydd.*

**Llongyfarchiadau enfawr i bawb yn 'Dreigiau Bach y Bannau'** ar eu harolwg llwyddiannus ym mis Medi. Cafwyd adroddiad arbennig gyda'r AGC ac Estyn yn nodi elfennau da iawn a rhagorol . Cafodd y lleoliad ei wahodd i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â rhannu sut mae gweithdrefnau pontio cryf gyda Ysgol y Bannau yn cael effaith ar les plant. Bydd yr astudiaeth yma yn ymddangos ar eu gwefannau – Bendigedig!



Cafwyd fore o ddathlu gyda'n teuluoedd, gyda'r plant yn perfformio eu cyngerdd Nadolig yn wych - ac wrth gwrs, parti!

